# Pecyn Partneriaid

## COSTAU BYW LLYWODRAETH CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cyngor ar bopeth
citizens advice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwybodaeth i Bartneriaid

cyngor ar bopeth
citizens advice

# Gwybodaeth i Bartneriaid

Mae pobl ledled Cymru yn cael trafferthion ar hyn o bryd gyda chostau byw cynyddol, sy'n golygu bod ychydig bach o gymorth yn fwy pwysig nag erioed. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r ymgyrch hon i helpu i leihau effaith yr argyfwng costau byw.

**Nod yr ymgyrch hon yw:**

- ✓ Annog pobl i fynd i hafan Yma i Helpu i gael gwybod mwy am yr ymgyrch a'r cymorth sydd ar gael.
- ✓ Cyfeirio pobl at linell gymorth am ddim Advicelink Cymru i weld a ydynt yn gymwys ac i gael mwy o gymorth a chyngor am ddim am arian.

# Gwybodaeth i Bartneriaid

**Mae angen eich cymorth arnom**

Mae hon yn ymgyrch gyfathrebu integredig genedlaethol, ac mae angen eich cymorth arnom i ledaenu'r neges a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ar eich holl sianeli a rhwydweithiau. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl asedau creadigol a'r negeseuon i chi wneud hynny.

Rydym eisiau annog pobl i gael gwybod pa gymorth allai fod ganddynt hawl iddo a'u hannog i ofyn am help. Mae tudalen we yr ymgyrch yn cynnwys rhagor o wybodaeth am broses llinell gymorth Advicelink Cymru a dolen i dudalen 'Help gyda chostau byw' Llywodraeth Cymru.

**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asedau'r Ymgyrch

cyngor ar bopeth
citizens advice

# Asedau'r Ymgyrch

Mae postiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar gael i chi eu rhannu â'ch rhwydweithiau. Os byddwch yn rhannu negeseuon, cofiwch ein tagio ni, a chynnwys ein hashnod #YmaIHelpu. Hefyd, os nad ydych eisoes yn gwneud hyn, byddwch cystal â'n dilyn ni a'n hoffi ni ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol:

**@LlC_Cymunedau** (Twitter)

**@LlywodraethCym** (Facebook and Twitter)

Mae'r holl gopi a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn y pecyn hwn yn cynnwys dewisiadau o fewn yr uchafswm nodau ar gyfer yr holl sianeli cymdeithasol, gan gynnwys Twitter. Mae asedau creadigol i gyd-fynd â'r postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'u creu hefyd ac maent ar gael i'w lawrlwytho. Mae'r delweddau a'r fideos yn addas ar gyfer Facebook a Twitter. Mae'r holl asedau yn cyfeirio cynulleidfaoedd at hafan Yma i Helpu a llinell gymorth am ddim Advicelink Cymru i gael mwy o gymorth.

**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**

# Asedau'r Ymgyrch

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol – Cyffredinol**

Rydym wedi creu rhai postiadau a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i'ch helpu i gefnogi ein hymgyrch ar eich sianeli eich hun. Mae croeso i chi addasu unrhyw rai o'r rhain ar gyfer eich cynulleidfa eich hun. Gellir defnyddio yr holl opsiynau cynnwys gweledol (carwsél / delweddau statig/fideos) ar y cyd â'r negeseuon/copi a argymhellir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Mae angen ychydig o gymorth ar bawb o bryd i'w gilydd, a gyda'r costau byw cynyddol mae angen cymorth ar lawer o bobl yng Nghymru nawr.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth yn ei gallu i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl.

I gael gwybod pa gymorth sydd ar gael i chi ac i hawlio eich arian, ewch i: llyw.cymru/ymaihelpu

Neu ffoniwch Advicelink Cymru am ddim heddiw ar 0808 250 5700

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir: Delwedd statig*

Mae costau byw cynyddol yn pryderu llawer o bobl yng Nghymru. Mae cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru a allai eich helpu gyda rhai o'ch costau byw.

I gael gwybod mwy am y gefnogaeth sydd ar gael ewch i: llyw.cymru/ymaihelpu

Neu ffoniwch Advicelink Cymru am ddim heddiw ar 0808 250 5700 i hawlio eich arian.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir: Carwsél*

Ydych chi mewn trafferthion ariannol ond ddim yn gwybod lle i droi i gael cyngor?

Gall Advicelink Cymru eich helpu i edrych a ydych chi'n gymwys i gael unrhyw gymorth ychwanegol. Ffoniwch heddiw am ddim ar 0808 250 5700 i hawlio eich arian.

Neu ewch i: llyw.cymru/ymaihelpu

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir: MP4*

**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**


# Asedau’r Ymgyrch

## Asedau’r cyfryngau cymdeithasol – Cyffredinol

### Statig




### Carwsél




Cliciwch yma i weld asedau’r ymgyrch

# Asedau'r Ymgyrch

**Asedau'r cyfryngau cymdeithasol – Ffilm Arwr**

**Hysbyseb Deledu 30 Eilliad**




**Hysbyseb Iaith Arwyddion Prydain**




Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch

# Asedau'r Ymgyrch

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol – Ffilmiau Hwb**

Rydym wedi creu fersiynau sgwâr a phetryal o'r ffilmiau hwb ar gyfer 4 cynulleidfa wahanol: Gweithwyr, Rhieni, Gofalwyr a Phensiynwyr. Rydym wedi darparu detholiad o gopi cymdeithasol a awgrymir i gyd-fynd â deunydd creadigol y Ffilmiau Hwb. Mae croeso i chi addasu unrhyw rai o'r rhain ar gyfer eich cynulleidfaoedd eich hun.

Os ydych chi'n gweithio, efallai y bydd hawl gennych gael rhywfaint o gymorth gyda chostau byw cynyddol o hyd.

Gan gynnwys: Credyd Cynhwysol, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Costau Iechyd.

I wybod pa gymorth sydd ar gael i chi, ewch i:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Ffilm Hwb Gweithwyr*

Os ydych chi'n rhiant, efallai y bydd gennych hawl i gael cymorth gyda chostau byw cynyddol.

Gan gynnwys: Credyd Cynhwysol, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Help gyda Chostau ysgol.

I wybod pa gymorth sydd ar gael i chi, ewch i:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Ffilm Hwb Rhieni*

Os ydych chi'n Ofalwr, efallai y bydd gennych hawl i gael cymorth gyda chostau byw cynyddol.

Gan gynnwys: Lwfans Gofalwr, Credyd Cynhwysol a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

I wybod pa gymorth sydd ar gael i chi, ewch i:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Ffilm Hwb Gofalwyr*

Os ydych chi'n bensiynwr, efallai y bydd gennych hawl i gael cymorth gyda chostau byw cynyddol.

Gan gynnwys: Credyd Pensiwn, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Lwfans Gweini.

I wybod pa gymorth sydd ar gael i chi, ewch i:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch y linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Ffilm Hwb Pensiynwyr*

**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**

# Asedau’r Ymgyrch

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol – Ffilmiau Hwb**

## Ffilm Hwb Gweithwyr




## Ffilm Hwb Gofalwyr




## Ffilm Hwb Pensiynwyr




## Ffilm Hwb Rhieni




Cliciwch yma i weld asedau’r ymgyrch

# Asedau’r Ymgyrch

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol – Llyfryddiaeth Budd-daliadau**

Rydym wedi creu detholiad o asedau cymdeithasol Llyfryddiaeth Budd-daliadau, mae yna ddau ased cymdeithasol ar gyfer pob budd-dal, a gellir defnyddio y naill neu’r llall gyda’r copi a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae croeso i chi addasu unrhyw rai o’r rhain ar gyfer eich cynulleidfaoedd eich hun.

Efallai’ch bod chi’n credu nad yw Credyd Cynhwysol ar eich cyfer chi, ond ydych chi wedi cadarnhau hynny?

I wybod pa gymorth sydd ar gael i chi:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Statig Credyd Cynhwysol*

Ydych chi’n cael trafferth talu rhai o’ch costau iechyd?

Oeddech chi’n gwybod y gallech chi fod â hawl i’r Budd-dal Costau Iechyd?

I wybod pa gymorth sydd ar gael i chi:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Statig Budd-dal Costau Iechyd*

Ydych chi’n rhiant sy’n hawlio Credyd Cynhwysol?

Gallai eich plentyn fod yn cael pryd ysgol am ddim! Un gost yn llai i feddwl amdano.

Dysgwch pa gymorth sydd ar gael i chi:

https://www.llyw.cymru/yma-i-helpu-gyda-chostau-byw

Neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru am ddim ar 0808 250 5700.

#YmaIHelpu

*Creadigol a awgrymir:*
*Statig Prydau Ysgol am Ddim*

**Cliciwch yma i weld asedau’r ymgyrch**

# Asedau’r Ymgyrch

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol – Llyfryddiaeth Budd-daliadau**

## Credyd Cynhwysol







## Budd-dal Costau Iechyd







**Cliciwch yma i weld asedau’r ymgyrch**

# Asedau'r Ymgyrch

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol – Llyfryddiaeth Budd-daliadau**

## Credyd Pensiwn







## Prydau Ysgol am Ddim







**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**

# Asedau'r Ymgyrch

**Asedau ychwanegol - Taflen**

Yn ogystal â hyn, mae gennym daflen ymgyrch ddwyieithog llawn gwybodaeth sydd ar gael i'w lawrlwytho.

## Taflen Ymgyrch Ddwyieithog





Mae angen ychydig o gymorth a chefnogaeth ar bob un ohonom o bryd i'w gilydd, a gyda chostau byw yn cynyddu mae angen cymorth ar lawer o bobl yng Nghymru nawr.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl.

Yn ogystal â helpu gyda biliau, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ystod o gymorth ar bethau fel costau ysgol a gofal plant a chostau addysg bellach ac uwch. Gallai cyllid o'r Gronfa Cymorth Dewisol hefyd fod ar gael i helpu pobl mewn argyfwng sy'n dioddef caledi eithafol.

**Llinell Gymorth 'Hawlia Dy Arian' Advicelink Cymru**

Os nad ydych yn siŵr pa gymorth sydd ar gael, mae Advicelink Cymru yma i'ch helpu i wirio a hawlio eich arian.

Ffoniwch y llinell gymorth 'Hawlia Dy Arian' am gyngor cyfrinachol am ddim ar eich hawl i arian ychwanegol o:

- Fudd-daliadau lles, fel Taliad Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gofalwyr a Chredyd Pensiwn.
- Cymorth Llywodraeth Cymru.

Gall cynghorydd drefnu hefyd i chi gael cymorth â materion dyled a chyllid personol.

**Beth sy'n digwydd pan fyddaf i'n ffonio'r llinell gymorth?**

Pan fyddwch yn cysylltu ag Advicelink Cymru, bydd ymgynghorydd hyfforddedig yn siarad â chi am eich amgylchiadau ac yn eich helpu i ddarganfod pa gymorth sydd ar gael.

Bydd yr ymgynghorydd yn eich cefnogi drwy gydol y broses hawlio ac yn eich helpu i lenwi unrhyw ffurflenni hawlio.

Gallan nhw hefyd gynghori ar ba dystiolaeth y mae angen i chi ei rhoi i gefnogi'ch cais.

Cysylltwch ag ymgynghorydd heddiw drwy ffonio'r llinell gymorth am ddim

**0808 250 5700**


o ddydd Llun i ddydd Gwener
9am i 5pm

neu ewch i:
**llyw.cymru/ymaihelpu**

YMA I HELPU
GYDA CHOSTAU BYW

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG44210





We all need a little help and support from time to time, and with the rising costs of living many people in Wales need help now.

The Welsh Government is doing everything it can to put money back into people's pockets.

As well as help with fuel costs, the Welsh Government also offers a range of support on things like school and childcare expenses and further and higher education costs. Funding from the Discretionary Assistance Fund (DAF) might also be available to help people in crisis experiencing extreme hardship.

**Advicelink Cymru Claim What's Yours helpline**

If you are unsure about what support is available, Advicelink Cymru are here to help you check and claim what's yours.

Call the Claim What's Yours helpline for free and confidential advice on your entitlement to extra money from:

- Welfare benefits, such as Personal Independence Payment, Carers Allowance and Pension Credit.
- Welsh Government support.

An advisor can also arrange for you to get help with debt and personal finance issues.

**What happens when I call the helpline?**

When you contact Advicelink Cymru, a trained advisor will talk to you about your circumstances and help you find out what support is available.

The advisor will support you throughout the claim process and help you to fill in any claim forms.

They can also advise on what evidence you need to provide to support your claim.

Get in touch with an advisor today by calling the free helpline on

**0808 250 5700**

Monday to Friday
9am to 5pm

or go to:
**gov.wales/heretohelp**

HERE TO HELP
WITH THE COST OF LIVING

OGL © Crown copyright 2022, Welsh Government, WG44210

**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**

# Asedau'r Ymgyrch

**Asedau ychwanegol - Iaith Gymunedol**

Yn ogystal ag asedau Saesneg a Chymraeg rydym wedi creu sawl un o asedau ein hymgyrch mewn sawl iaith gymunedol gan gynnwys: taflen ymgyrch llawn gwybodaeth ac animeiddiadau cymdeithasol.

## Taflenni Iaith Gymunedol






大家都时不时都需要一点帮助和支持。随着生活成本的上涨，许多威尔士民众现在都需要帮助。

威尔士政府正在尽其所能，把钱放回民众的钱包。

除了燃料成本方面的帮助外，威尔士政府还在学校和儿童保育费用以及继续教育和高等教育费用等方面提供一系列支持。酌定援助基金 (DAF) 的资金也可用于帮助处于危机中、极度困难的人群。

**Advicelink Cymru Claim What's Yours 求助热线**

如果您不确定可以获得哪些支持，Advicelink Cymru 可以帮助您查询并申领您应得的支持。

拨打 What's Yours 申领帮助热线，获取免费和保密建议，帮您从以下渠道获取应得的更多资金：

- 福利，例如个人独立补助金、照料者津贴和养老金补贴。
- 威尔士政府的支持。

顾问还可以安排您获得有关债务和个人财务问题的帮助。

**我拨打热线之后会发生什么？**

当您联系 Advicelink Cymru 时，经过培训的顾问会与您讨论您的 情况并帮助您了解可以获得哪些支持。

顾问将在整个申领过程中为您提供支持，并帮助您填写任何申领表格。

他们还可以建议您需要提供哪些证据来支持您的申请。

立即拨打免费帮助热线与顾问取得联系

**0808 250 5700**

周一到周五
上午9点到下午5点

或前往：
gov.wales/heretohelp

HERE TO HELP
WITH THE COST OF LIVING

OGL © Crown copyright 2022, Welsh Government, WG44210

## Animeiddiad Iaith Gymunedol




**Cliciwch yma i weld asedau'r ymgyrch**

# Diolch am eich cefnogaeth

